

26 Mawrth 2020

Annwyl Gydweithiwr

COVID-19: Methodoleg Dros dro ar gyfer rhoi Ail Farn

O ganlyniad i bandemig COVID-19 ar hyn o bryd, mae AGIC yn lleihau nifer yr ymweliadau i ysbytai er mwyn lleihau'r risg i gleifion, y staff a'r cyhoedd gymaint â phosibl.

Mae'r ddogfen hon yn nodi gweithdrefn ar gyfer gweithio o bell i Feddygon a Benodwyr i roi Ail Farn (SOADs) mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl fydd ar waith ar unwaith.

Crynodeb o'r weithdrefn:

- 1. Atal ymweliadau personol i leoliadau gan SOADs dros dro.**
- 2. Gofyn i wasanaethau iechyd meddwl ddarparu crynodeb o nodiadau meddygol cyfredol y claf pan fyddant yn cyflwyno cais am ail farn.**
- 3. Cynnal ymgynghoriadau ag Ymgynghoreion Statudol (h.y. gweithwyr meddygol proffesiynol), gan gynnwys y clinigwr cyfrifol, dros y ffôn neu fideo (Skype neu Microsoft Teams).**
- 4. Gofyn am wasanaethau i sicrhau bod cleifion sy'n cytuno i siarad â SOAD yn gallu manteisio ar ffôn neu dechnoleg i gefnogi galwad fideo â'r SOAD.**
- 5. Ni fydd gofyn i SOADs anfon copïau gwreiddiol o dystysgrifau yn y post. Rydym yn annog gwasanaethau i dderbyn copïau electronig o dystysgrifau a gweithredu ar sail hynny. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y DU yn dileu'r gofyniad am gopi papur, a byddwn yn cyhoeddi datganiadau pellach unwaith y caiff hyn ei gadarnhau. Os na fydd hyn yn digwydd, gallwn ddarparu copïau caled â llofnod go iawn unwaith y bydd y pandemig drosodd.**

Gwirio bod pobl yng Nghymru
yn derbyn gofal da

Checking people in Wales are
receiving good care

Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Parc Busnes Rhydycar / Rhydycar Business Park
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
Tel / Ffôn 0300 062 8163
Fax / Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Y weithdrefn ddiwygiedig ar gyfer gweithio o bell

Rydym yn gofyn i wasanaethau iechyd meddwl roi crynodeb o broblemau'r claf ar hyn o bryd i AGIC pan fyddant yn cyflwyno cais am ail farn.

Wrth gyflwyno cais am ail farn, dylech hefyd anfon y dogfennau isod drwy e-bost diogel, lle y bônt ar gael:

- Maen prawf 1: Amserlen o gofnodion dyddiol (lle y bo'n bosibl).
- Maen prawf 2: Yr adroddiad diweddaraf gan y tribiwnlys a/neu'r rheolwr (hyd yn oed os cafodd ei ysgrifennu cyn i'r claf gael ei dderbyn)
- Maen prawf 3: Copïau wedi'u sganio o siartiau triniaeth gyfredol.
- Maen prawf 4: Prawf o awdurdod i gadw claf (H014 neu debyg)

Gellir anfon y dogfennau hyn drwy e-bost yn ddiogel o gyfrif e-bost nhs.net neu o gyfrif e-bost diogel tebyg i: RSMH@gov.wales

Bydd y SOAD yn defnyddio'r data hyn yn lle'r nodiadau clinigol y byddai wedi eu gweld fel arall yn ystod ymweliad.

Cynhelir ymgynghoriadau â gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys y clinigwr cyfrifol, dros y ffôn neu drwy lwyfan digidol addas amgen.

O hyn ymlaen disgwylir cynnal yr ymgynghoriadau hyn dros y ffôn neu drwy lwyfan digidol addas amgen, gan gynnwys unrhyw waith archwilio gyda'r Clinigwr Cymeradwy neu Gyfrifol.

Yn dilyn ymgynghoriadau digidol o'r fath, rydym yn gofyn i wasanaethau sicrhau bod y cleifion sydd am gael sgwrs dros y ffôn (neu Skype) â'r SOAD yn gallu gwneud hynny.

Gofynnir i ddarparwyr drefnu ymgynghoriad dros y ffôn neu, lle y bo'n bosibl, Skype ar gyfer unrhyw glaf sydd am ymgynghori â SOAD. Os bydd y claf yn gwrthod y dull hwn o gyfathrebu, y SOAD fydd â'r hawl i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â chael ail farn neu beidio, fel sy'n digwydd o dan amgylchiadau arferol os bydd y claf yn gwrthod gweld y SOAD.

Rydym yn annog gwasanaethau i dderbyn copi electronig o dystysgrif a anfonwyd dros e-bost yn ddigonol ar gyfer gweithredu.

Rydym yn cydnabod bod dadl ynghylch dilysrwydd cyfreithiol llofnodion electronig mewn dogfennau statudol mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, ond rhagwelir y gallai'r Llywodraeth ddileu'r gofyniad am gopïau papur yn fuan.

Nid ydym yn disgwyl i SOADs fynd i swyddfeydd post na ddefnyddio gwasanaethau'r Post Brenhinol yn ystod yr argyfwng. Rydym yn gofyn i wasanaethau dderbyn copi

electronig a anfonwyd dros e-bost o gopi caled gwreiddiol y SOAD â llofnod go iawn yn ddigonol ar gyfer gweithredu.

Bydd SOADs yn parhau i gadw'r copïau papur, a byddwn yn hysbysu gwasanaethau cyn gynted ag y byddwn wedi cael penderfyniad pendant a fydd angen i ni anfon y rhain yn nes ymlaen pan fydd y pandemig drosodd.

Os na ellir rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith.

Gall fod amgylchiadau lle na all SOADs gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen er mwyn dod i benderfyniad y gellir ei gyfiawnhau'n gyfreithiol o ran awdurdodi triniaeth. Os bydd hyn yn digwydd, yna **byddwn yn adolygu'r wybodaeth sydd ar gael i AGIC ac yn asesu 1) a fydd yn bosibl cynnal ymweliad er mwyn cwblhau'r broses neu 2) a ddylwn gynghori** gwasanaethau i ystyried y darpariaethau ar gyfer triniaeth frys o dan adran 62 neu 64 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, neu opsiynau amgen drwy ddeddfwriaeth frys. (Atodiad 1).

Arweiniad Pellach:

Penderfynodd AGIC yn 2019 nad yw ffurflenni T yn gyfreithiol ddilys yng Nghymru a dylid defnyddio ffurflenni CO yn eu lle. Yn ystod cyfnod y pandemig, er mwyn lleihau'r faich ar y gwasanaeth, mae AGIC yn fodlon derbyn y bydd ffurflenni T yn ddilys nes y clywir yn wahanol.

Os bydd unrhyw gwestiynau gennych am y broses hon, neu os hoffech wneud sylwadau am y newidiadau, dylech e-bostio: RSMH@gov.wales.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Atodiad 1

Achosion brys lle nad oes angen tystysgrifau (adrannau 62, 64B, 64C a 64E)

Nid yw adrannau 57, 58 na 58A yn gymwys mewn achosion brys lle mae angen triniaeth ar unwaith (adran 62). Yn yr un modd, nid oes angen tystysgrif rhan 4A mewn achosion brys lle mae angen triniaeth ar unwaith (adrannau 64B, 64C a 64E).

Dim ond os bydd angen y driniaeth dan sylw ar unwaith er mwyn gwneud y canlynol y mae hyn yn gymwys:

1. achub bywyd y claf
2. atal dirywiad difrifol yng nghyflwr y claf, ac na fydd y driniaeth yn achosi unrhyw ganlyniadau andwyol corfforol neu seicolegol na ellir eu dadwneud
3. lleddfu dioddefaint difrifol y claf, ac na fydd y driniaeth yn achosi unrhyw ganlyniadau andwyol corfforol neu seicolegol na ellir eu dadwneud, ac nad yw'n golygu unrhyw berygl corfforol sylweddol, neu
4. atal cleifion rhag ymddwyn yn dreisgar neu rhag bod yn berygl iddynt eu hunain na phobl eraill, os bydd y driniaeth yn ymyrryd cyn lleied â phosibl at y diben hwnnw, ac os na fydd y driniaeth yn achosi unrhyw ganlyniadau andwyol corfforol neu seicolegol na ellir eu dadwneud, ac nad yw'n golygu unrhyw berygl corfforol sylweddol.

Os mai therapi electrogynhyfol (ECT) yw'r driniaeth (neu feddyginiaeth a roddir fel rhan o ECT), dim ond y ddau gategori cyntaf sy'n gymwys.

Bydd angen i ddarparwyr a chlinigwyr ystyried dau opsiwn os na fydd yn bosibl i SOAD fod yn bresennol, neu os na fydd hynny'n ddymunol, ac mae angen parhau â'r driniaeth;

1. **Os bydd tystysgrif CO eisoes yn ei lle ar gyfer y claf, ond nad yw'r dystysgrif yn awdurdodi triniaeth newydd/wahanol, mae'n bosibl y bydd a62(1) yn gymwys.** Dyma'r hyn a fydd yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf o glinigwyr darparwyr – cwblhau ffurflen a62 a gynhyrchir yn lleol. Ni fydd angen cynhyrchu ffurflen a62 newydd ar gyfer pob dos, yn enwedig os bydd (c) neu (d) uchod yn gymwys. Dylid adolygu'r angen am a62 parhaus a nodi hyn yn y nodiadau yn rheolaidd, e.e. rowndiau ward/timau amlddisgyblaethol neu gyfarfod adolygu arall.
2. **Os nad oes tystysgrif CO eisoes yn ei lle ar gyfer y claf ond mae wedi cyrraedd diwedd cyfnod y 'rheol tri mis', wedyn mae'n bosibl y bydd a62(2) yn gymwys.** Bydd hyn yn sicrhau y gall cynllun triniaeth sy'n bodoli eisoes barhau nes y bydd yn bosibl bodloni 'gofynion y dystysgrif', pan fydd SOAD yn gallu adolygu'r driniaeth, neu nes bydd cyflwr y claf yn gwella i'r fath raddau fel ei bod yn bosibl iddo gydsynio, a'i fod yn gwneud hynny, a gellir cwblhau T2.

Os bernir bod a62(2) yn gymwys, ni fydd angen cael unrhyw ffurflen arbennig - bydd yn ddigonol i'r Clinigwr Cymeradwy/Clinigwr Cyfrifol gofnodi yn y nodiadau bod y driniaeth yn parhau ar ôl y cyfnod o dri mis o dan a62(2), ar y cyd â'r cyfiawnhad (un ai (c) neu (d) uchod) a'r rheswm – sef nad yw SOAD ar gael oherwydd COVID19.

Dylid adolygu'r angen parhaus yn rheolaidd a'i gofnodi fel y disgrifir uchod.